| | |
|---|---|
| PWYLLGOR : | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD : | 9 Medi 2008 |
| TEITL : | Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd Louise Hughes |
| AWDUR : | Swyddog Monitro |
| GWEITHREDU : | Penderfynu ar y cais |

Cefndir

1. Atodaf, fel Atodiad 1, gopi o ffurflen a dderbyniwyd wrth y Cynghorydd Louise Hughes, Cyngor Gwynedd, yn cyflwyno cais am ollyngiad mewn cysylltiad â threfniadaeth ysgolion.

2. Mae'r Cynghorydd wedi cadarnhau bod ei buddiant yn codi o'r ffaith bod ei merch yn ddisgybl yn ysgol Llanegryn. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeilion yr ysgol.

3. Yn ogystal â hyn, mae ganddi fuddiant personol hefyd oherwydd ei bod yn llywodraethwr ar yr ysgol. Serch hynny, gan iddi gael ei phenodi gan Gyngor Gwynedd, mae'r Cod Ymddygiad yn darparu nad yw hynny yn arwain at fuddiant sy'n rhagfarnu (para 12(2)(iii)). Fel canlyniad nid yw'r ffaith ei bod yn llywodraethwr yn ei rhwystro rhag cymryd rhan lawn yn y trafodaethau, heblaw bod y mater yn ymwneud "*â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad*".

4. Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd y Pwyllgor ar ganllawiau i'w dilyn wrth ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, ac mae'r cofnodion o'r cyfarfod hwnnw yn adrodd fel a ganlyn:

*"Cytunwyd y byddai gosod canllawiau i'w dilyn wrth ystyried ceisiadau yn gysylltiedig â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion o gymorth i ystyried pob cais ar ei haeddiant ac i fod yn gyson wrth wneud penderfyniadau.*

*Yn sgil hyn, penderfynwyd y byddai gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiadau rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau."*

5. Atodir er gwybodaeth, fel Atodiad 2, baragraff 2 o'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001), sy'n darparu'r sefyllfaoedd lle gall y Pwyllgor ganiatáu gollyngiad.

Argymhelliad

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Louise Hughes am ollyngiad.